

STATWS DINAS – MANTEISION I WRECSAM

Ddarparwyd yr adroddiad gan Owen Davies Consulting – Tachwedd 2021

Nod y datganiad hwn yw rhoi crynodeb byr o'r manteision y gallai Wrecsam eu disgwyl o unrhyw ddyfarniad o statws dinas. Mae'n seiliedig ar yr ymchwil a gyflawnwyd hyd yma ac mae'n canolbwyntio ar beth fydd y manteision i drigolion a chymunedau Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Byddai i Wrecsam gael dyfarniad o statws dinas fel rhan o Anrhydeddau Jiwbilf Platinwm y Frenhines yn gydnabyddiaeth a dathliad o'r hyn mae'r Fwrdeistref Sirol wedi'i gyflawni trwy ei hanes, pobl, sefydliadau a lleoedd. Byddai'n gydnabyddiaeth helaeth hefyd o gyfraniadau sylweddol Wrecsam i gymdeithas a seilwaith diwylliannol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Byd. Ac er nad yw cael dyfarniad o statws dinas yn penderfynu beth allai ddigwydd yn y dyfodol, na newid mewn enw yn gwarantu twf economaidd, dangoswyd mewn lleoedd eraill sut mae trefi a ddaeth yn ddinasoedd wedi defnyddio'u statws newydd i gynyddu cyfleoedd economaidd a gwella llesiant cymunedau sy'n byw yno.

Byddai statws dinas i Wrecsam yn un o'r llawer o arfau sydd ar gael inni gryfhau ein llesiant a'u hunaniaeth a'n balchder yn y Fwrdeistref Sirol, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amryw strategaethau creu lleoedd ac iddynt y nod o hyrwyddo cymuned Wrecsam ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol. Mae creu lleoedd i Wrecsam yn syniad cynhwysfawr ar gyfer gwella'n cymdogaethau, pentrefi, tref a rhanbarth a chryfhau'r cysylltiad rhwng pobl a'r lleoedd maent yn eu rhannu, ac mae'n rhoi sylw penodol i'r hunaniaethau ffisegol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd sy'n diffinio Wrecsam ac yn cefnogi ei thwf parhaus.

Bydd statws ardal dwf genedlaethol Wrecsam a rhyddhau potensial dinas-ranbarth Mersi Dyfrdwy yn ogystal â Bergen Twf y Gogledd, Cronfa Codi'r Gwastad a rhaglenni eraill a gyllidir gan y llywodraeth yn helpu gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae llwyddiant diweddar Wrecsam i gyrraedd rhestr fer Dinas Diwylliant yn arf posibl arall i gryfhau'r hunaniaeth ddiwylliannol a hyrwyddo Wrecsam a'n cymuned ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae gwaith parhaus partneriaid gwasanaethau cyhoeddus wrth symud ymlaen â'n strategaeth llesiant ar gyfer y dyfodol yn bwysig er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau.

Wrth weithio law yn llaw â'r holl strategaethau creu lleoedd hyn, byddai dyfarniad o statws dinas yn helpu gwneud Wrecsam y lle gorau y gall fod wrth gefnogi dyheadau, iechyd a llesiant ei holl bobl, busnesau a sefydliadau. Wrth ddilyn profiad trefi fel Wrecsam sydd hefyd wedi dod yn ddinas, mae'r 10 o gyfleoedd allweddol a ddaw yn sgil 'Wrecsam fel dinas' yn cynnwys cryfhau'r canlynol:

1. teimlad cryfach o falchder pobl yn y lle maent yn byw, gweithio a/neu treulio amser hamdden, sydd yn ei dro yn dod â manteision iechyd ac economaidd posibl
2. y llwyfan i hyrwyddo Wrecsam a chodi uchelgeisiau yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol
3. cyfleoedd i sefydliadau allweddol, clystyrau economaidd, a sectorau dyfu mewn amlygrwydd a chynyddu mewnfuddsoddi, ee y Brifysgol a'i chyfle i ddenu myfyrwyr a rhaglenni ymchwil
4. nifer y myfyrwyr a gweithwyr medrus ac uchelgeisiola buddsoddwyr a ddenir i Wrecsam, ee yr Ysbyty a'i gyfle i ddenu gweithwyr proffesiynol meddygol medrus
5. cyfleoedd i'r gymuned, seilwaith, a gwasanaethau dyfu a datblygu yn fwy cynaliadwy

6. canolbwyntio ar ymgyrchoedd brandio a marchnata Wrecsam yn ehangach yn y dyfodol
7. ymwybyddiaeth o hanes, treftadaeth, hunaniaeth, diwylliant ac iaith Wrecsam, sy'n denu mwy o ymwelwyr a hynny yn ei dro yn cynyddu'r arian a gaiff ei wario mewn busnesau a chymunedau lleol
8. y potensial i ddenu prosiectau mawr na fyddai efallai'n cael eu sicrhau fel tref
9. y gallu i gydweithio gyda dinasoedd a llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ar brosiectau trefol a dinesig penodol
10. disgwyliadau uwch o 'greu lleoedd' sydd yn ei dro yn creu lleoedd mwy bywiog i fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt